

Ymchwilio i effaith pandemig COVID-19 ar addysg dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru

Ymchwil

Dogfen ymchwil rhif: 083/2025
Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2025

Ymchwilio i effaith pandemig COVID-19 ar addysg dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Cynulleidfa

Mae'r adroddiad presennol ar gyfer llunwyr polisi Llywodraeth Cymru, arweinwyr ysgolion, athrawon ac ymgynghorwyr addysg sy'n gyfrifol am gefnogi addysg dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr; sefydliadau yng Nghymru sy'n gyfrifol am hyrwyddo a chefnogi cynnydd addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Trosolwg

Mae'r adroddiad yn edrych ar addysg dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r adroddiad yn archwilio profiadau athrawon ysgol gynradd yng Nghymru sydd wedi bod yn cefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hystafelloedd dosbarth yn ystod y cyfnod cau ysgolion a achoswyd gan bandemig COVID-19. Yn ogystal, mae'r adroddiad yn archwilio profiadau addysgol dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Gwneir argymhellion mewn ymateb i ganfyddiadau'r astudiaeth.

Cam gweithredu sydd ei angen

Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi'u rhannu â Llywodraeth Cymru er mwyn iddynt eu hystyried.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Yr Athro J. Carl Hughes
Ysgol Addysg
Prifysgol Bangor



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Copïau ychwanegol

Gellir cyrchu'r ddogfen hon o wefan Llywodraeth Cymru yn: <https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/arwain-dysgu-proffesiynol/ymchwil-ac-ymholi/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/rhwydwaith-tystiolaeth-gydweithredol>

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

Rhestr o fyrfoddau

Crynodeb gweithredol

1. Cyflwyniad

1.1 Nodau ymchwil

1.2 Cwestiynau ymchwil

1.3 Strwythur yr adroddiad hwn

2. Cefndir ac adolygiad o lenyddiaeth

2.1 Beth yw'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr rhag cael mynediad i addysg?

2.2 Pandemig COVID-19

3. Methodoleg

3.1 Dyluniad ymchwil

3.2 Disgrifiad sampl

3.3 Y weithdrefn gyfsweld

3.4 Amserlen cyfsweliadau

3.5 Dadansoddiad o ddata cyfsweliadau

4. Canlyniadau

4.1 Cyfradd ymateb

4.2 Canfyddiadau allweddol o gyfsweliadau ag athrawon

4.3 Canfyddiadau allweddol o gyfsweliadau â dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr

5. Trafodaeth

5.1 Presenoldeb

5.2 Ymgysylltu

5.3 Cefnogaeth gymunedol i deithwyr

5.4 Heriau ehangach

5.5 Trafod y canfyddiadau gyda dysgwyr

5.6 Cyfyngiadau

5.7 Casgliadau

6. Cyfeiriadau

7. Atodiadau

Atodiad A: Llythyr gwahoddiad ysgol ar gyfer sampl o ysgolion CEN Prifysgol Bangor **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad B: Llythyr gwahoddiad e-bost ysgol ar gyfer ysgolion CEN 13 **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad C: Llythyr e-bost atgoffa ysgol ar gyfer sampl CEN o ysgolion **Error! Bookmark not defined.**

Atodiad D: Llythyr e-bost atgoffa ysgolion ar gyfer ysgolion CEN 13 **Error! Bookmark not defined.**

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

16

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

33

Error! Bookmark not defined.

Error! Bookmark not defined.

Rhestr o fyrfoddau

AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AGA	Addysg Gychwynnol Athrawon
AHYYY	Wedi'i Addysgu Heblaw Yn yr Ysgol
ALI	Awdurdod Lleol
APR	Addysg Perthynas a Rhywioldeb
CEN	Rhwydwaith Tystiolaeth Gydweithredol
CIEREI	Sefydliad Cydweithredol ar gyfer Ymchwil, Tystiolaeth ac Effaith Addysg
CIY	Cymraeg fel Iaith Ychwanegol
CYBLD	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
ISCI	Cymdeithas Ryngwladol Dangosyddion Plant
NSERE	Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol
SIY	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
WISERD	Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru

Crynodeb gweithredol

Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru'r Sefydliad Cydweithredol ar gyfer Ymchwil, Tystiolaeth ac Effaith Addysg (CIEREI) ym Mhrifysgol Bangor i gynnal astudiaeth ymchwil i ddeall ac archwilio dylanwad y pandemig ar gynnydd addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Ymgwymerwyd â'r prosiect presennol mewn cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Yn yr adroddiad presennol, rydym yn defnyddio'r term dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Fe wnaethom archwilio profiadau athrawon ysgol o addysgu a chefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod pandemig COVID-19 yng Nghymru. Yn ogystal, fe wnaethom archwilio'r hyfforddiant, yr adnoddau a'r asiantaethau allanol sydd eu hangen mewn ysgolion i gefnogi lles dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y pandemig ac yn y cyfnod hwn o adferiad ôl-bandemig.

Fe wnaethom gynnal wyth cyfweiliad lled-strwythuredig ar-lein gydag athrawon dosbarth mewn ysgolion yng Ngogledd Cymru. Roedd ffocws y cyfweiliadau ar effaith y pandemig ar y grwpiau hyn o ddysgwyr. Bu'r athrawon hefyd yn trafod materion cyd-destunol ehangach a waethygydd gan y pandemig ac anghenion y dysgwyr hyn yn y system addysg yn y dyfodol.

Yn ogystal, buom yn archwilio profiadau dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y cyfnod cau ysgolion a achoswyd gan bandemig COVID-19. Fe wnaethom gynnal saith cyfweiliad wyneb yn wyneb â dysgwyr mewn ysgol gynradd yng Ngogledd Cymru. Roedd y cyfweiliadau gyda dysgwyr yn canolbwyntio ar eu profiadau o gau ysgolion a dysgu gartref yn ystod y cyfnod cau ysgolion a achoswyd gan bandemig COVID-19, a phrofiad addysgol y grŵp bregus hwn o ddysgwyr. Nid archwiliodd yr adroddiad hwn brofiadau teuluoedd dysgwyr; mae hyn yn gyfyngiad ar yr adroddiad hwn ac yn faes lle mae angen ymchwil yn y dyfodol.

Mae maint sampl bach yr athrawon ysgol sy'n gyfrifol am addysgu dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ogystal â maint sampl bach dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cyfyngu ar ba mor gyffredinol yw canfyddiadau'r astudiaeth bresennol. Yn ogystal, mae ffocws yr astudiaeth gyfredol ar athrawon ysgol gynradd a dysgwyr ysgolion cynradd mewn un rhanbarth (h.y., sir) yng Nghymru yn cyfyngu ar y gallu i gyffredinoli. Serch hynny, mae'r astudiaeth bresennol yn rhoi cychwyn pwysig i ddeall profiadau dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y cyfnod cau ysgolion a achoswyd gan y pandemig COVID-19 yng Nghymru.

Crynodeb o brif ganfyddiadau'r cyfweiliadau

Nododd y cyfweiliadau ag athrawon bedair prif thema ar brofiadau addysgol y dysgwyr hyn. Y pedair thema yw:

Presenoldeb: Dywedodd athrawon fod presenoldeb y grwpiau hyn o ddysgwyr yn is na phresenoldeb dysgwyr o grwpiau eraill cyn i'r ysgolion gau oherwydd pandemig COVID-19. Yn ogystal, arhosodd presenoldeb rhai o'r dysgwyr hyn yn isel hyd yn oed ar ôl cyfyngiadau COVID-19, ac ar adeg yr astudiaeth hon nid oeddent wedi dychwelyd i'r cyfraddau presenoldeb cyn-COVID.

Ymgysylltu: Roedd ymgysylltu â dysgu yn thema allweddol ac roedd yn her a godwyd drwy'r cyfweiliadau, ymgysylltu â dysgwyr mewn dysgu cyfunol, ymgysylltu â rhieni ac ymgysylltu â'r gymuned a nodwyd fel heriau allweddol wrth gefnogi addysg dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Cymorth cymunedol i deithwyr: Dangosodd y cyfweiliadau ag athrawon fod gweithwyr cymorth a ariennir gan awdurdodau lleol yn allweddol wrth gefnogi ysgolion gydag addysg dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Ymhellach, roedd y gweithwyr cymorth yn cael eu gweld fel ffactor amddiffynnol i athrawon gefnogi nid yn unig datblygu sgiliau ond hefyd y bont i adeiladu ymddiriedaeth o fewn y gymuned.

Heriau ehangach: Roedd y cyfweiliadau ag athrawon yn nodi heriau ehangach sy'n bwysig i'w deall a'u hystyried wrth drafod addysg dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r rhain yn cynnwys llythrennedd isel ymhlith oedolion y boblogaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr; dysgwyr yn gadael yr ysgol yn gynnar a phryderon am Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Nododd y cyfweiliadau gyda dysgwyr bedair prif thema ar y profiadau cyffredinol ac addysgol yn ystod y pandemig. Y pedair thema yw:

Gwybodaeth am COVID-19: Datgelodd y cyfweiliadau gyda'r dysgwyr fod dysgwyr yn ymwybodol o'r pandemig, yn deall effeithiau'r pandemig ac yn bryderus am y coronafeirws.

Teimladau am y cyfnod clo: Datgelodd y cyfweiliadau â dysgwyr deimladau cymysg am y cau ysgolion a achoswyd oherwydd y pandemig COVID-19, gan gynnwys teimlo'n 'drist' a 'hapus' ynghylch cau ysgolion. Soniodd rhai dysgwyr am deimlo'n hapus am yr amser ychwanegol a gawsant gartref i'w dreulio gyda'u teuluoedd a'u hanifeiliaid anwes. Mynegodd rhai o'r dysgwyr hefyd eu bod yn teimlo'n anhapus ynghylch methu â mynychu'r ysgol a'u bod yn colli allan ar waith/gweithgareddau ysgol a'r rhyngweithio cymdeithasol â'u ffrindiau.

Gwaith ysgol a gweithgareddau yn ystod y cyfnod clo: Dangosodd y cyfweiliadau â dysgwyr ymatebion cymysg ar waith ysgol a gwblhawyd gan y dysgwyr hyn yn ystod y cyfnod clo. Soniodd rhai o'r dysgwyr am gymryd rhan mewn dysgu. O ystyried mai dysgwyr oed ysgol gynradd oedd y rhain, soniodd sawl dysgwr am yr amser cynyddol oedd ganddynt i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae a hamdden. Yn ogystal, roedd y canfyddiadau'n dangos bod y dysgwyr hefyd yn gwneud rhywfaint o waith ysgol ac yn defnyddio'r ysgol. Ar y cyfan, roedd y canfyddiadau'n awgrymu mai cyfyngedig oedd y cymhelliant i ymgysylltu â dysgu pan fydd yr ysgolion ar gau.

Technoleg gwybodaeth: Nododd y cyfweiliadau â dysgwyr fod gan y rhan fwyaf o ddysgwyr fynediad at offer TG yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys gliniaduron, tabledi a ffonau. Trafododd nifer o ddysgwyr y mater o wrthdynciadau offer TG, gan gynnwys defnyddio dyfeisiau i chwarae gemau, cyfathrebu â'u ffrindiau neu chwilio am wybodaeth am COVID-19.

Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

- 1) Darparu cyllid ychwanegol i helpu i nodi anghenion cymorth penodol dysgwyr yn amgylchedd yr ysgol a'r cartref i gael mynediad i'r cwricwlwm, er mwyn cefnogi dysgwyr o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn effeithiol.
- 2) Darparu dysgu proffesiynol â ffocws i athrawon, cynorthwyyr addysgu, arweinwyr ysgol a swyddogion addysg o amgylch anghenion y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr i roi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt gefnogi dysgwyr. Mae angen i'r dysgu proffesiynol hwn hefyd amlygu anghenion penodol y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr gwahanol.
- 3) Datblygu polisïau penodol ar gyfer dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr fel bod dull unedig o gefnogi ac ymgysylltu â'r dysgwyr a'r teuluoedd hyn, tra'n cydnabod anghenion penodol y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Argymhellion ar gyfer sefydliadau haen ganol (h.y., Awdurdodau Lleol)

- 4) Yn yr hinsawdd bresennol o doriadau i gyllid y llywodraeth, dylid ymdrechu i gadw Ymgynghorwyr Addysg i Deithwyr a'r cronfeydd cymorth Teithio er mwyn galluogi teithio i'r cymunedau i gefnogi ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth. Maent yn adnodd amhrisiadwy a gallant ddatblygu a chynnal cysylltiadau cryf rhwng teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac ysgolion.

Argymhellion ar gyfer arweinwyr ysgol ac yr ymgynghorwyr

- 5) Dylai ysgolion barhau i ymgysylltu â'r ymgynghorwyr addysg i Deithwyr a'r cymorth Teithio a gynigir ar hyn o bryd gan yr awdurdod lleol oherwydd bod hon yn ffynhonnell werthfawr o gymorth i ysgolion a'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- 6) Dylid gwneud ymdrechion i sicrhau bod ymgynghorwyr addysgol yn deall yr heriau y mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hwynebu o ran cael mynediad at addysg ffurfiol, a sut nad yw eu ffordd o fyw weithiau yn cyd-fynd â gofynion y cwricwlwm.
- 7) O ran cynnwys y cwricwlwm, byddai'n ddefnyddiol, o ran arfer gynhwysol, pe bai mwy o adnoddau ar gyfer dysgwyr sy'n cynnwys cynrychioliadau cadarnhaol o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- 8) O ran 'dal i fyny' ar ôl COVID19, dylai'r ffocws fod ar y cwricwlwm a chyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae angen cydnabod bod effaith y pandemig wedi bod yn llawer ehangach na dysgu a gollwyd. Mynegwyd ofn a phryder gan rai o'r dysgwyr pan oeddent yn trafod y pandemig a thra bod yr argyfwng bellach wedi mynd heibio, dylid cymryd effaith y pryder hwn o ddifrif a mynd i'r afael ag ef.

Argymhellion ar gyfer ymchwil yn y dyfodol

- 9) Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil ar ffyrdd effeithiol o gefnogi ymgysylltiad rhieni, yn enwedig o ran lleihau rhwystrau llythrennedd cyfyngedig a dealltwriaeth ddigidol isel o fewn y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- 10) Ymchwil cyfranogol pellach gyda dysgwyr a phobl ifanc ar effaith COVID-19, i gymharu profiadau dysgu yn ystod y cyfnod clo, a'r graddau yr oedd profiadau plant 'sefydlog' yn debyg i'w cyfoedion Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

1. Cyflwyniad

Pwrpas yr ymchwil¹ gyfredol oedd deall ac archwilio dylanwad y pandemig ar addysg dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae yna lawer o gamsyniadau ynglŷn â'r diffiniad o deuluoedd Cymuned Deithiol. Mewn rhai rhannau o Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig, mae teuluoedd y gymuned Deithwyr yn cael eu hystyried yn gyffredinol fel Sipsiwn Romani neu Deithwyr Gwyddelig. Fodd bynnag, mae newidiadau crwydrol o ran ffordd o fyw o fewn y boblogaeth gyffredinol wedi golygu, o fewn y "Teuluoedd a phlant cymunedol teithiol" hwn, fod nifer o'r teuluoedd dros dro "domestig" a "rhyngwladol" hyn sydd hefyd yn ffitio i'r categori bregus hwn. Yn adroddiad Llywodraeth Cymru ar ganllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr bregus a difreintiedig, disgrifir² naw categori gwahanol o grwpiau dysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn bwysig, mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cynnwys nifer o grwpiau ethnig a diwylliannol fel yr amlinellwyd mewn dogfen ganllaw gan Lywodraeth Cymru, [Canllawiau addysg i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr](#) (2023).^[10] Yn yr astudiaeth hon fe wnaethom ganolbwyntio ar ddylanwad y pandemig ar addysg dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Felly, rydym wedi defnyddio'r term Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn lle dysgwyr cymunedol Teithiol am y rhesymau a ganlyn (1) ni chasglwyd unrhyw ddata ar ethnigrwydd y cyfranogwyr (h.y., Sipsiwn, Roma, Theithwyr); a (2) ni wyddom a yw athrawon ysgol ac ymgynghorwyr addysgol eraill yn deall diwylliannau a hunaniaeth y dysgwyr y maent yn eu haddysgu. Er ein bod wedi defnyddio'r term ymbarél Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddisgrifio poblogaeth amrywiol, rydym yn cydnabod bod gan bob cymuned ei chredoau, normau a thraddodiadau diwylliannol cyffredin ei hun (am drafodaeth bellach yn diffinio cymhlethdodau gweler (Hamilton, 2018; Tammi a Cadger,) 2017; Llywodraeth Cymru, 2023). Mae deall anghenion penodol y cymunedau unigryw hyn yn faes ymchwil y dyfodol yng Nghymru.

Yng Nghymru, ar hyn o bryd nid oes ymchwil yn archwilio profiadau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y pandemig. Yr astudiaeth gyfredol oedd yr astudiaeth gyntaf i ddechrau deall profiadau dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y cyfnod cau ysgolion a achoswyd gan bandemig COVID-19 yng Nghymru, a'r athrawon sy'n eu cefnogi. Mae'r canfyddiadau'n rhoi cipolwg ar brofiadau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr o safbwyntiau a lleisiau athrawon ysgol a dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hunain. Yn yr astudiaeth gyfredol, fe wnaethom ofyn i athrawon ysgol am eu profiadau o addysgu dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y pandemig yn ogystal â phrofiadau dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr o ddysgu gartref yn ystod y cyfnod cau ysgolion a achoswyd gan y pandemig COVID-19. Gall llais athrawon ysgol sy'n cefnogi'r dysgwyr bregus hyn yn eu hystafelloedd dosbarth fod yn ddilys wrth fynegi pryderon am y rheng flaen addysg ac wrth helpu i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr difreintiedig. Yn yr adroddiad cyfredol rydym yn amlinellu canfyddiadau'r ymchwil gydag athrawon sy'n cefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr eu hunain yn unol â'r

¹ Fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (NSERE), sefydlwyd rhaglen ymchwil y Rhwydwaith Tystiolaeth Gydwethredol (CEN) yn 2020 i rannu tystiolaeth ar effaith pandemig COVID-19 ar system addysg Cymru. Cafodd ymchwilwyr yn CIEREI, Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor, eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal astudiaeth ymchwil yn ymchwilio i effaith pandemig COVID-19 ar addysg dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

² (1) dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); (2) dysgwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol sydd â'r Gymraeg a'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt (SIY/CIY); (3) plant sydd wedi cael profiad o ofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal; (4) dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHYYY); (5) plant i ffoaduriaid a cheiswyr lloches; (6) Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr; (7) dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM); (8) gofalwyr ifanc; a (9) plant sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.

canllawiau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru (2023) yn ogystal â'r canllaw adnoddau a ysgrifennwyd gan Tammi a Cadger (2017) ar ddiwylliant a thraddodiadau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

1.1 Nodau ymchwil

Prif nod yr astudiaeth oedd ymchwilio i ddylanwad y pandemig ar gynnydd addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Yr ail nod oedd cael dealltwriaeth o'r hyfforddiant, yr adnoddau a'r asiantaethau allanol sydd eu hangen i gefnogi llesiant y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod ac ar ôl y pandemig, ac i grynhoi'r dystiolaeth ymchwil a'i rhannu â Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid allweddol ac ysgolion i wella ansawdd y ddarpariaeth.

1.2 Cwestiynau ymchwil

1.2.1 Sut mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar gynnydd addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion yng Nghymru?

1.2.2 Pa hyfforddiant, adnoddau ac asiantaethau allanol sydd eu hangen i gefnogi lles dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru yn ystod cyfnod adferiad ar ôl y pandemig?

1.2.3 Sut gall addysgu a dysgu dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion gael eu gwella ymhellach wrth symud ymlaen o bandemig COVID-19?

1.3 Strwythur yr adroddiad hwn

Yn Adran 2 rydym yn darparu adolygiad o'r ymchwil presennol ar addysg dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Yn Adran 3 disgrifiwn y fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd gennym yn yr astudiaeth hon. Mae hyn yn cynnwys y cyfweiliadau ar-lein a gynhaliwyd gennym gydag athrawon dysgwyr o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddeall dylanwad y pandemig ar gynnydd addysgol y dysgwyr hyn. Yn ogystal, rydym yn cyflwyno'r cyfweiliadau a gynhaliwyd gyda dysgwyr ysgolion cynradd o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddeall profiadau addysgol y dysgwyr hyn yn ystod y pandemig.

Yn Adran 4 rydym yn cyflwyno canfyddiadau ein cyfweiliadau ag athrawon ysgolion cynradd a dysgwyr ysgolion cynradd.

Yn Adran 5 rydym yn cyflwyno'r drafodaeth ar ein cyfweiliadau ag athrawon a dysgwyr ysgolion cynradd ac yn darparu argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys ymgynghorwyr ysgol.

2. Cefndir ac adolygiad o lenyddiaeth

Yn 2018, nododd Llywodraeth Cymru fod plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn grŵp difreintiedig o ddysgwyr yn ein cymdeithas sy'n profi gwahaniaethu, anghydraddoldeb a diffyg cyfleoedd (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae diwylliant y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wahanol, a all ddylanwadu ar addysg dysgwyr o'r cymunedau hyn, yn enwedig y profiadau addysgol yn ystod y pandemig. Mae agweddau at addysg ymhlith dysgwyr yn amrywiol yn y gymuned hon ac yn cael eu dylanwadu gan eu diwylliant (Tammi a Cadger, 2017; Llywodraeth Cymru, 2023). Mae Tammi a Cadger (2017) yn trafod diwylliant cymunedau Teithwyr, gan gynnwys bywyd teuluol, rolau a chyfrifoldebau traddodiadol, a all ddylanwadu ar allu dysgwyr i ymgysylltu â'r system addysg y tu hwnt i'r ysgol gynradd. Mae presenoldeb dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn nodweddiadol yn gostwng mewn addysg ysgol uwchradd ac mae tan-gynrychiolaeth sylweddol o ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn addysg uwch (Hamilton, 2018; Morgan, McDonagh & Acton, 2023). Mae'n bwysig felly archwilio addysg y dysgwyr hyn er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ddylanwad y pandemig ar y dysgu a sut i gefnogi'r dysgwyr hyn yn y ffordd orau. Fel yr amlinellwyd mewn adroddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru (2023): "...Rhaid gwneud pob ymdrech i ddeall y dylanwadau diwylliannol a all effeithio ar yr agweddau hyn. Bydd hyn yn gofyn am weithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, i'w hannog i weld gwerth addysg" (t.10).

Dangosodd data cenedlaethol ar bresenoldeb ysgol fod dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan y pandemig, ac roedd hyn ar ei uchaf ymhlith dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr (Rowlands, 2022). Datgelodd crynodeb ystadegol o ddata cenedlaethol a gasglwyd rhwng Medi 2014 ac Awst 2022 ar absenoldeb mewn ysgolion cyn ac yn ystod y pandemig COVID-19 fod patrymau presennol o gyfraddau uwch o absenoldebau ysgol ymhlith dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn parhau yn ystod y pandemig, ac roedd hefyd yr uchaf ymhlith y dysgwyr hyn o gymharu â dysgwyr o grwpiau ethnig eraill yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2022). At hynny, roedd data CYBLD ar gyfer Medi 2021 i Awst 2022 ar gyrraethiad mewn arholiadau yn dangos bod canran y dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gyflawnodd yr ystodau graddau A*-A ac A*-C yn is o gymharu â'u cyfoedion o gefndiroedd ethnig eraill. Yn ogystal, nid oedd unrhyw gofrestrïadau gan ddysgwyr o gefndir Sipsiwn, Roma a Theithwyr a enillodd A*-A (Llywodraeth Cymru, 2022). Mae'r data hyn ar bresenoldeb mewn ysgolion yn ogystal â chyrhaethiad mewn arholiadau yn amlygu ymhellach fod angen gwneud mwy i sicrhau canlyniadau addysgol gwell i'r dysgwyr hyn yng Nghymru. Wrth ystyried y data ar bresenoldeb a chyrhaethiad, mae'n bwysig deall y gwahaniaethau diwylliannol ymhlith y dysgwyr hyn (Llywodraeth Cymru, 2023; Tammi & Cadger, 2017). Cyn darparu arweiniad a chyfleoedd dysgu proffesiynol i ysgolion ac ymgynghorwyr ar y dulliau mwyaf effeithiol sydd ar gael i gefnogi cynnydd dysgu dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, cam cyntaf pwysig yw nodi'r profiadau ac unrhyw heriau mewn addysg y mae'r dysgwyr hyn yn eu hwynebu cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig. Yn ogystal, wrth archwilio'r profiadau ac unrhyw heriau a wynebîr gan ddysgwyr o'r cymunedau hyn, mae'n bwysig ein bod hefyd yn ystyried materion cyd-destunol ehangach allweddol, gan gynnwys y dylanwadau diwylliannol ac agweddau tuag at ddysgu ac addysg (Llywodraeth Cymru, 2023). Hyd yn hyn, prin yw'r astudiaethau sydd wedi ymchwilio i ddylanwad y pandemig ar addysg dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y DU.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)). Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddull

plentyn-ganolog i gael mewnwelediad i farn plant a phobl ifanc o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr am eu profiadau a'u heriau mewn addysg. Canfu'r astudiaeth fod agweddau at addysg ymhlith y dysgwyr hyn yn amrywio'n fawr, roedd cymysgedd o ymatebion gan ddysgwyr tuag at addysg, trafododd rhai dysgwyr eu bod yn awyddus i barhau â'u haddysg tra bod rhai dysgwyr yn trafod pwysigrwydd rolau a chyfrifoldebau traddodiadol yn y cartref. Wrth ddehongli'r canfyddiadau hyn, mae'n bwysig ystyried bod yr astudiaeth hefyd wedi canfod bod bron pob cyfranogwr wedi trafod eu teulu a'u diwylliant fel rhywbeth hanfodol iddynt. Cafodd y ddwy thema hyn eu trafod gan bron bob cyfranogwr. Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu bod dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn canolbwyntio'n fawr ar deuluoedd ac mae hyn hefyd yn cael ei gydnabod yn yr adnodd a ddatblygwyd gan Tammi a Cadger (2017). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu, er mwyn helpu'r dysgwyr hyn, ei bod yn bwysig deall y dylanwad diwylliannol a allai effeithio ar agweddau a phrofiadau'r dysgwyr hyn tuag at addysg. Nodwyd ymhellach ymhlith y dysgwyr hyn anghenion dysgu ychwanegol; derbyn i'r ysgol; presenoldeb yn yr ysgol; bwlio ar sail hil; cyfathrebu rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau; ymwybyddiaeth o ddiwylliant a dathlu diwylliant; Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys Addysg Cydberthynas, a Rhywioldeb (ACRh); a, darparu person penodedig neu oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn yr ysgol (Llywodraeth Cymru 2023, Tammi & Cadger, 2017).

2.1 Beth yw'r rhwystrau sy'n atal dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr rhag cael mynediad i addysg?

Mae cynllun³ Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2018, yn dangos bod teuluoedd o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu hystyried yn un o'r grwpiau mwyaf difreintiedig a wynebodd wahaniaethu, anghydraddoldeb a diffyg cyfleoedd cyn y pandemig (Llywodraeth Cymru, 2018). Caiff hyn ei adleisio gan yr astudiaethau a gynhaliwyd gan Nazroo et al. (2020) a Tammi (2020) a nododd fod ymdrin ag anghydraddoldebau ariannol a digidol a chanlyniadau addysgol gwael yn rhwystrau cyffredin a brofwyd gan y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn Llundain ac yn yr Alban cyn pandemig COVID-19.

O ran wynebu anawsterau ariannol, mae teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn fwy tebygol o fyw mewn amodau o dlodi uwch a thai o ansawdd gwael gyda chyfraddau cyflogaeth is. Un ffactor a gyfrannodd at y sefyllfa hon fel arfer yw lefelau is o gymwysterau academiaidd, sgiliau a hyfforddiant yn y cymunedau hyn (Cemlyn et al., 2009). Fodd bynnag, mae Friel (2021) hefyd yn nodi, yn ogystal â lefelau nodweddiadol is o gyrhaeddiad addysgol, fod ffactorau fel iechyd gwael, gwahaniaethu, a pholisïau'r llywodraeth yn cyfrannu at y cyfraddau diweithdra uchel ymhlith y grwpiau lleiafrifol hyn. Mae'r heriau cymdeithasegol cymhleth hyn wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru (2018) ac mae camau gweithredu i fynd i'r afael â nhw wedi'u datblygu. Er enghraifft, er mwyn lliniaru effeithiau tlodi ac amodau byw gwael, nod Llywodraeth Cymru oedd darparu cyngor ar ddyledion ac arweiniad ariannol a gweithio gyda rheolwyr safle awdurdodau lleol trwy Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr Cymru Gyfan i nodi rhwystrau a rhannu atebion. Er mwyn lliniaru'r cyfraddau cyflogaeth isel, nod Llywodraeth Cymru oedd sicrhau bod y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gallu manteisio ar y gwasanaethau a ddarperir gan gynlluniau cyflogadwyedd a ariennir, a'u bod yn gallu elwa arnynt. At hynny, nod Llywodraeth Cymru oedd gweithio gyda Busnes Cymru a darparu gweithdai personol i gefnogi'r grwpiau lleiafrifol hyn i sefydlu eu busnesau eu hunain a sicrhau mynediad at wybodaeth a chynghor busnes (Llywodraeth Cymru, 2018).

Mae ymchwil ragarweiniol gan Renedo et al (2023), Pavee Point (2014) a Condon et al (2019) eisoes wedi nodi rhai heriau gan gynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd is a'r diffyg

³ ['Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr'](#)

cysylltiad ag addysg ffurfiol yn y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Gall cyflawni canlyniadau addysgol llwyddiannus wella gallu dysgwyr i gael cyflogaeth yn y dyfodol a all, yn ei dro, wella ansawdd eu bywyd a'u hiechyd corfforol a meddyliol (Friel, 2021).

O ran anghydraddoldebau digidol, mae'r canfyddiadau yn Scadding a Sweeney (2018) yn dangos, o'u cymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol, fod dwywaith cymaint o unigolion o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr nad ydynt erioed wedi defnyddio'r rhyngwrdd ac, mae'r defnydd o'r rhyngwrdd o ddydd i ddydd ddwywaith yn fwy cyffredin ymhlith y boblogaeth gyffredinol nag ymhlith y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn ogystal, adroddodd Scadding a Sweeney (2018) fod gan fwy na hanner eu sampl o gyfranogwyr o'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr ddiffyg sgiliau digidol a hyder i ddefnyddio technoleg ddigidol yn annibynnol. Mae hyn yn dangos bod angen llawer cryfach i gefnogi teuluoedd i wella sgiliau digidol ac yn enwedig wrth i ysgolion symud tuag at gyfathrebu â mwy o lwyfannau digidol.

Mae aflonyddwch sy'n gysylltiedig â COVID-19 wedi effeithio ar rai dysgwyr gan achosi bylchau addysgol ac ymyrraeth fawr. Codwyd pryderon y gallai dyfodiad diweddar iawn i Gymru fod wedi arwain at broses anorffenedig o gofrestru ysgol ac felly efallai na fyddai teuluoedd wedi cael mynediad at ddeunydd dysgu a chymorth (Pokhrel a Chhetri, 2021). Roedd teuluoedd yn wynebu heriau oherwydd aflonyddwch yn y gorffennol a diffyg ymwybyddiaeth am y system addysg (Sime & Fox, 2015). At hynny, pwysleisiodd pandemig COVID-19 yr angen i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau digidol ymhlith y grwpiau bregus a lleiafrifol, gan gynnwys y grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan nad oedd dysgwyr yn cael yr un cyfleoedd i ymgysylltu â'u haddysg (Tammi, 2020).

Fel y nodwyd yn flaenorol, yn ystod y cyfnodau clo, roedd dysgwyr yn cael eu haddysgu o bell, ac eto pwysleisiodd livari, Sharma a Ventä-Olkkonen (2020) "nad yw pob plentyn mewn sefyllfa gyfartal i gymryd rhan yn ei addysg sylfaenol ddigidol" (t.5). Roedd mynediad dysgwyr at addysg yn dibynnu ar yr adnoddau y gellid eu darparu gan eu teuluoedd eu hunain. Mae yna deuluoedd oedd heb sgiliau a chymwysedau digidol ac nid oedden nhw'n gallu darparu mynediad i dechnoleg. Ymhellach, cafodd llawer o deuluoedd brofiadau negyddol gyda'r system addysg, yn ogystal â heriau megis lefelau llythrennedd a chyllid, bod mewn argyfwng ariannol ac anllythrennedd, a ychwanegwyd at yr anawsterau i rieni wrth gefnogi proses ddysgu ddigidol eu plant (livari, Sharma & Ventä-Olkkonen, 2020; Pokhrel & Chhetri, 2021).

Yn ôl Villani et al (2021) a Llywodraeth Cymru (2023, 2020), y rhwystrau cyffredin i gael mynediad at addysg a mynychu dysgu o bell a wynebwyrd gan y grwpiau lleiafrifol hyn oedd yr anallu i gael mynediad i'r rhyngwrdd, a diffyg mynediad i ddyfeisiau digidol addas (e.e., ffonau symudol, gliniaduron, neu dabledi) a natur y deunyddiau dysgu sydd ar gael iddynt. At hynny, nid oedd gan bob dysgwr yn y cymunedau hyn ofod pwrpasol i astudio ynddo ac ymgymryd â gwaith ysgol. O ganlyniad, roedden nhw'n dibynnu ar ysgolion ac ALLau i ddarparu mynediad i'r rhyngwrdd, caledwedd a mannau gweithio er mwyn cymryd rhan mewn dysgu o bell (Llywodraeth Cymru, 2023, 2020).

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oedd hyn yn wir am bob dysgwr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Er enghraifft, dywedodd Townsend, Saleminck a Wallance (2020) nad oedd y prinder o ran cael mynediad i'r rhyngwrdd o reidrwydd yn ganlyniad i ddiffyg perchnogaeth dyfeisiau digidol. Darganfu'r awduron hyn nad yw'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn y DU yn gyffredinol yn cyrchu'r rhyngwrdd drwy fand eang sefydlog wrth iddynt deithio i wahanol safleoedd yn ystod y flwyddyn, felly nid yw talu am gontract band eang yn opsiwn ymarferol iddynt. O ganlyniad, maent yn defnyddio'r rhyngwrdd yn bennaf trwy ddyfeisiau symudol gan ddefnyddio data symudol (Scadding &

Sweeney, 2018). Mae rhai cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn gyffredinol yn gwersylla mewn ardaloedd gwledig (Townsend, Salemink & Wallance, 2020) lle mae problemau gyda signalau 3G a 4G yn gyffredin, sy'n esbonio'r anallu i gael mynediad i'r rhyngwrdd pan fydd yn gyfleus iddynt (Townsend, Wallace a Fairhurst, 2015; Scadding & Sweeney, 2018). Yn yr un modd, ffactor arall a oedd yn rhwystro dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr rhag cael mynediad i addysg oedd yr her ariannol o gael cysylltiad band eang symudol (Llywodraeth Cymru, 2023). Er bod ALLau wedi gweithio'n galed i sicrhau bod dysgwyr o grwpiau lleiafrifol yn cael dyfeisiau digidol a mynediad i'r rhyngwrdd, roedd ffactorau fel ansawdd offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), mynediad i'r rhyngwrdd a chymhwysedd technegol isel rhai dysgwyr ac aelodau o'u teuluoedd yn parhau i gael eu nodi fel rhwystrau i ddysgu.

2.2 Pandemig COVID-19

Yn ystod pandemig COVID-19, roedd yn ofynnol i ysgolion yng Nghymru gau am ddau gyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 a mis Rhagfyr 2020 ac Ebrill 2021. Ar wahân i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr allweddol, arhosodd pob dysgwr arall gartref a chawsant eu haddysgu o bell (Polisi a Strategaeth Llywodraeth Cymru, 2021), roedd cau ysgolion lleol hefyd wedi'u gorfodi gan yr Awdurdod Lleol (ALI). Yng Nghymru, bu astudiaethau a archwiliodd ddylanwad y pandemig ar brofiadau a heriau yn ogystal â llesiant dysgwyr ysgol mewn lleoliadau addysg gynradd, uwchradd ac addysg bellach (Woodward, 2023; Llywodraeth Cymru, 2021; Llywodraeth Cymru, 2021; WISERD, 2020; Hampton & McAuley, 2023).

Nododd astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2021) ar brofiadau addysgol dysgwyr difreintiedig yn ystod y cyfnod cau ysgolion, a phan ail-agorodd ysgolion ar ôl y pandemig, effeithiau cadarnhaol a negyddol ar brofiadau dysgu plant. Roedd dwy her allweddol i ddysgwyr yn cynnwys cyrchu technoleg a dysgu yn amgylchedd y cartref. Yn ogystal, dywedwyd bod diffyg cefnogaeth rhieni/gofalwyr yn ffactor allweddol yn lles addysgol dysgwyr yn amgylchedd y cartref. Fodd bynnag, i rai dysgwyr, dywedwyd bod yr amodau a grëwyd gan y pandemig yn fwy ffafriol i gyfoethogi eu dysgu. Roedd adroddiad Llywodraeth Cymru (2021) yn canolbwyntio ar ddysgwyr difreintiedig mewn sampl o ysgolion cynradd, canol ac uwchradd yn ogystal â lleoliadau ADY, fodd bynnag, ni adroddwyd am unrhyw wybodaeth ychwanegol am gefndir ethnig/demograffeg a/neu ddiffiniad o'r grŵp bregus a difreintiedig o'r dysgwyr ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Roedd yn aneglur felly a allai canfyddiadau'r adroddiad fod wedi cynnwys profiadau dysgu grwpiau dysgwyr difreintiedig eraill gan gynnwys dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Er mwyn ymchwilio i effaith y pandemig a'r cyfnodau clo ar les dysgwyr oed ysgol, datblygodd Cymdeithas Ryngwladol Dangosyddion Plant (ISCI) arolwg Childrens Worlds: COVID-19 Supplement (Atodiad COVID-19). Gofynnodd yr arolwg i ddysgwyr ysgol am eu hamgylchiadau a'u lles ar draws ystod o feysydd, a sut mae'r rhain wedi newid yn ystod y pandemig. Yn 2021 cymerodd ysgolion yng Nghymru ran yn yr arolwg. Yng Nghymru, cwblhaodd 727 o ddysgwyr o 18 ysgol gynradd ac uwchradd yr arolwg. Datgelodd canfyddiadau rhagarweiniol yr arolwg Atodiad COVID-19 fod dysgwyr uwchradd yn fwy anfodlon ag ysgolion a dysgu o gymharu â dysgwyr ysgolion cynradd, a gwaethygydd hyn yn ystod y pandemig (Hampton & McAuley, 2023). Er bod astudiaethau cynharach a gynhaliwyd yng Nghymru yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i ymgysylltiad, profiadau a heriau dysgwyr ysgol o ran dysgu gwaith ysgol gartref yn ogystal â'u harferion astudio yn ystod y cyfnod cau ysgolion, nid yw'n glir a wnaeth unrhyw un o'r astudiaethau blaenorol

hyn hefyd ymchwilio a chanolbwyntio'n benodol ar brofiadau dysgu o bell dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Ni chofnodwyd unrhyw ddata gan y grŵp ethnig o ddysgwyr, sy'n dangos a oedd yr astudiaethau ymchwil cynharach wedi archwilio'r effaith ar addysg dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Nod yr astudiaeth hon yw rhoi cychwyn pwysig i fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

Yng Nghymru, bu astudiaethau sydd wedi archwilio dylanwad y pandemig ymhlith grwpiau eraill o ddysgwyr bregus a difreintiedig gan gynnwys dysgwyr sy'n ffoaduriaid a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (Woodward, 2023; Noone et al., 2023). Dangosodd astudiaeth ansoddol yng Nghymru a oedd yn ymchwilio i ddylanwad y pandemig ar ddysgwyr sy'n ffoaduriaid fod llawer o deuluoedd o ffoaduriaid yn anghyfarwydd â'r defnydd o dechnolegau digidol ac adnoddau astudio ar-lein, felly nid oedd ganddynt yr adnoddau i gefnogi eu plant i gael mynediad at wersi ac adnoddau ar-lein gartref yn ystod cyfnodau pan fo ysgol ar gau (Woodward, 2023; Sibieta & Cottell, 2020). Er, roedd rhai ysgolion ac awdurdodau lleol yn gallu darparu Wi-Fi a dyfeisiau digidol i gefnogi dysgwyr i gael mynediad at ddysgu ar-lein yn ystod y cyfnod cau ysgolion ac roedd ysgolion yng Nghymru yn gallu newid yn gyflym i ddarpariaeth ar-lein o ganlyniad i'w seilwaith ysgolion digidol effeithiol. (Sibieta & Cottell, 2020). Yn bwysig, mae'r astudiaethau hyn wedi darparu argymhellion ar sut i gefnogi'r dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr hyn ymhellach yn ystod y cyfnod hwn o adferiad pandemig. Fodd bynnag, hyd yma, yng Nghymru, fel mewn rhannau eraill o'r DU, prin yw'r ymchwil o hyd ar ddylanwad y pandemig ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig eraill, ac yn benodol, dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Yn yr Alban, dangosodd dadansoddiad rhagarweiniol o ddata tysteb gan Weithwyr Dysgu a Datblygu a oedd yn cefnogi rhieni a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y pandemig fod her allweddol i'r cymunedau hyn yn yr Alban yn cynnwys cyrchu data rhyngrwyd a dyfeisiau technolegol (Tammi, 2020). Yn ogystal, canfu'r astudiaeth sgiliau digidol lefel isel, gwybodaeth a hyder ymhlith plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr a oedd wedi effeithio ar eu gallu a'u cymhelliant i gymryd rhan mewn addysg ffurfiol ac anffurfiol (Tammi a Cadger, 2017). Yn bwysig, arweiniodd y cymorth sgiliau digidol un-i-un a ddarparwyd at gynnydd mewn hyder a pharodrwydd i ddysgu gan ddefnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd yn ddiweddar. O ystyried y newid yn y modd y cyflwynir gwaith ysgol, yn ogystal â'r cyfrifoldeb ychwanegol ar ddysgwyr a rhieni i gefnogi dysgwyr gyda gwaith ysgol, mae'n bwysig ymchwilio i unrhyw heriau addysgol tebyg i ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Nod yr ymchwil hwn yw cau'r bwlch hwn drwy gasglu tystiolaeth ar ymgysylltiad, profiadau a heriau dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod y pandemig yng Nghymru.

3. Methodoleg

3.1 Dyluniad ymchwil

Fe wnaethom gynllunio astudiaeth ymchwil ansoddol yn cynnwys cyfweiliadau lled-strwythuredig ag athrawon sy'n gyfrifol am ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fe wnaethom ddefnyddio cyfweiliadau i alluogi dealltwriaeth fwy cyfoethog o'r cyd-destun, profiadau, a chanfyddiadau'r athrawon ysgol gynradd a'r cyfweleion sy'n ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fe wnaethom ddefnyddio dull cyfweld lled-strwythuredig i gwmpasu themâu penodol ar brofiadau addysgol dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr tra'n caniatáu gofod ac amser i'r cyfweleion drafod elfennau ychwanegol a/neu archwilio unrhyw brofiadau neu bynciau nad ydynt efallai wedi'u cynnwys yn yr amserlen gyfweld.

3.2 Disgrifiad sampl

Diffiniwyd poblogaeth yr astudiaeth ar gyfer yr astudiaeth gyfredol fel dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion cynradd prif ffrwd yng Nghymru. Diffiniwyd y boblogaeth darged ar gyfer yr astudiaeth gyfredol fel athrawon ysgol sy'n gyfrifol am ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr mewn ysgolion cynradd. Y meini prawf cynhwysiant ar gyfer yr astudiaeth oedd (1) athrawon ysgol gyda dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu dosbarth; a (2) dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

3.3 Y weithdrefn gyfweld

Cawsom gymeradwyaeth foesegol ar gyfer yr astudiaeth gyfredol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Bangor⁴. Gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd gan Ystadegau ar gyfer Cymru, gwnaethom nodi ysgolion â dysgwyr Teithwyr yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2021. Anfonwyd y gwahoddiad i gymryd rhan yn y cyfweiliad at y penaethiaid mewn ysgolion dethol y nodwyd bod ganddynt ddysgwyr Teithwyr (gweler Atodiadau A, B, C a D) yn y chwe chonsortïwm a phartneriaeth ranbarthol yng Nghymru ym mis Mawrth 2022 (sef GwE, EAS), Partneriaeth Canolbarth Cymru, CSC, Castell-nedd Port Talbot, Partneriaeth). Gwahoddwyd ysgolion i fynychu sesiynau gwybodaeth ym mis Mawrth a mis Ebrill 2022 i egluro pwrpas yr astudiaeth yn fwy manwl. Mynychodd ysgolion yn y chwe chonsortïwm ranbarthol y sesiynau hyn. Yn olaf, anfonwyd e-bost atgoffa dilynol i ysgolion ym mis Mai 2022 gan y consortia ranbarthol a phartneriaethau a phwysleisiodd y byddai swyddogion ymchwil CEN yn cysylltu ag ysgolion gyda galwad ffôn atgoffa cwrteisi dilynol. Rhwng mis Mai a mis Mehefin 2022, gwnaed galwad ffôn dilynol terfynol i'r ysgolion i annog penaethiaid i ymgysylltu â'r astudiaeth.

Ymgwymerwyd â'r llythyrau gwahoddiad i ysgolion a'r nodiadau atgoffa fel rhan o brosiectau ysgol CEN eraill Prifysgol Bangor lle gwahoddwyd penaethiaid yr ysgolion a ddewiswyd i fod â dysgwyr Teithwyr i brosiectau CEN eraill. Ni chawsom unrhyw ymatebion gan ysgolion â dysgwyr Teithwyr i gymryd rhan mewn cyfweiliadau ar gyfer yr astudiaeth gyfredol. Yn gyfan gwbl, anfonwyd llythyr gwahoddiad e-bost cychwynnol ac yna dau e-bost atgoffa at sampl CEN o ysgolion ar gyfer yr astudiaeth gyfredol. Yn ogystal, gwnaed galwad ffôn dilynol olaf i'r ysgolion i annog penaethiaid i ymgysylltu â'r astudiaeth. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, ni chawsom unrhyw ymatebion cadarnhaol. Un rheswm posibl am hyn yw'r pwysau ychwanegol a oedd ar ysgolion yn ystod y cyfnod o adferiad ar ôl y pandemig. O

⁴ Rhif cymeradwyaeth foesol: 17022022-1628

ystyried maint poblogaeth lai dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr o gymharu â'u cyfoedion o gefndiroedd ethnig eraill, gallai dull samplu amgen fod wedi helpu i recriwtio ar gyfer astudiaethau. Un dull ar gyfer ei ddefnyddio gyda samplau bach yw techneg di-debygolrwydd, a elwir yn samplu bwriadol. Yn dilyn hynny, defnyddiwyd cysylltiadau yn y rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Bangor i recriwtio ysgolion yng Ngogledd Cymru y nodwyd bod ganddynt ddysgwyr Teithwyr. Anfonwyd y gwahoddiad astudio yn uniongyrchol at y penaethiaid gan aelod o'r tîm ymchwil a dilynwyd pob mynegiant o ddiddordeb i fyny ac aethant ymlaen i'r cyfweiliad. Cwblhawyd y cyfweiliadau ar-lein gydag athrawon ysgol gynradd sy'n gyfrifol am ddysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Yn yr astudiaeth gyfredol ni chasglwyd unrhyw ddata gan athrawon ysgol ar ethnigrwydd y dysgwyr (h.y., Sipsiwn, Roma, Teithwyr). Er bod y term Teithiwr wedi'i ddefnyddio ar gyfer dysgwyr, ni allwn gasglu o'r astudiaeth gyfredol a oedd athrawon yn ymwybodol o ethnigrwydd y dysgwyr yn eu dosbarth ac yn deall y gwahaniaeth rhwng y cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Am y rheswm hwn, ni allwn gadarnhau pa gymuned o ddysgwyr a gafodd ei chynnwys yn yr astudiaeth gyfredol (h.y. Sipsiwn, Roma, Teithiwr).

Cyn y cyfweiliad, e-bostiwyd gwybodaeth astudio at yr athrawon ysgol. Rhoddodd hyn wybod i'r athrawon a oedd yn cymryd rhan am nodau a diben yr astudiaeth ymchwil a'r cyfweiliad. Fe wnaethom hefyd ddarparu cyflwyniad llafar a oedd yn esbonio pwrpas yr astudiaeth ymchwil a'r weithdrefn gyfweidd. Fe wnaethom bwysleisio y byddai ymatebion cyfranogwyr yn cael eu trin yn gyfrinachol ac y gallent dynnu'n ôl o'r cyfweiliad ar unrhyw adeg. Cynhaliwyd y cyfweiliadau lled-strwythuredig ar-lein gan ddefnyddio plattfform cyfathrebu ar-lein diogel Microsoft Teams, a dim ond y swyddogion ymchwil a oedd yn cynnal y cyfweiliadau a'r cyfweilai a oedd yn cymryd rhan oedd yn gallu ymuno. Er bod y cyfweiliadau wedi'u cynnal pan ddechreuodd ysgolion agor, fe wnaethom gynnal y cyfweiliadau lled-strwythuredig ar-lein oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 a oedd yn dal yn eu lle. At hynny, roedd y cynnig i gynnal y cyfweiliadau gan ddefnyddio plattfform ar-lein yn hwyluso ymgysylltiad ysgolion oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 a oedd yn dal yn eu lle.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau gyda'r dysgwyr a gymerodd ran yn bersonol ar safle'r ysgol. Roedd yr ysgol yr ymwelwyd â hi i gynnal gweithgareddau ymchwil mewn ardal o Gymru lle mae niferoedd sylweddol o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, ni chasglwyd unrhyw ddata ar ethnigrwydd y dysgwyr (h.y., Sipsiwn, Roma, Teithwyr). Er i'r gweithgareddau ymchwil gyda dysgwyr gael eu cynnal mewn ardal o Gymru lle mae niferoedd sylweddol o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, ni allwn gadarnhau bod dysgwyr yn dod o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn unig. Croesawyd yr ymweliad gan staff ac uwch reolwyr sydd â phrofiad sylweddol o weithio gyda'r grŵp hwn. Yn ystod y diwrnod a dreuliwyd yn yr ysgol, roedd yr ymchwilydd yn gallu arsylwi dysgwyr a rhieni yn cyrraedd ac roedd yn ymddangos bod ganddynt i gyd berthynas gref â'r athrawon a'r pennaeth. Codwyd rhai materion gan rieni ac aethpwyd i'r afael â nhw'n gyflym ac â chydymdeimlad. Roedd sgysiau gyda'r tîm staff, gan gynnwys athrawon, cynorthwyywyr addysgu, gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar a rheolwyr yn dangos ymrwymiad i ymgysylltu, deall a gweithio gyda'r cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

3.4 Amserlen cyfweiliadau

